BookTrust
Getting children reading

# Cynigion Blynyddoedd Cynnar BookTrust: prif ganfyddiadau'r Ail Flwyddyn

## Prif ganfyddiadau o ymchwil BookTrust gyda theuluoedd blynyddoedd cynnar a phartneriaid cyflenwi.

### Cyflwyniad

BookTrust yw **elusen ddarllen i blant fwyaf** y DU. Bob blwyddyn byddwn ni'n cyrraedd at **dros 1.5 miliwn o blant,** gyda'r nod o helpu teuluoedd i ddechrau ar eu teithiau darllen. Rydyn ni'n darparu cymorth mwy penodol i deuluoedd blynyddoedd cynnar ar aelwydydd incwm isel (gyda phlant 0-7 oed). Gwyddom mai'r teuluoedd hyn allai elwa fwyaf o'r manteision mwy hirdymor a thrawsnewidiol a ddaw yn sgil rhannu llyfrau a straeon.

### Am ein cynigion Blynyddoedd Cynnar

Yn 2023/24, fe ddarparon ni ein rhaglen o gynigion Blynyddoedd Cynnar BookTrust i **413,000 o blant** ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, drwy **ein rhwydwaith o dros 6,000 o bartneriaid cyflenwi.**

Addysgwyd y cynigion Blynyddoedd Cynnar gan ein gwybodaeth am ddarllen ar y cyd yn y blynyddoedd cynnar, tystiolaeth allanol am newid ymddygiad a chreu arferion, a dysgu a phrofi helaeth gyda phartneriaid a theuluoedd.

Gallwch ddysgu mwy am ein dull a arweinir gan dystiolaeth, a sut mae hyn yn addysgu cynllun ein rhaglenni, yn ein hadroddiad effaith sefydliadol diweddaraf.

### Am y briffiad hwn

Yn y briffiad hwn, rydym ni'n rhannu 10 canfyddiad allweddol o ail flwyddyn ein cynigion Blynyddoedd Cynnar BookTrust (Dechrau Da Plentyn Bach / Blwyddyn 1-2 a Dechrau Da Cyn Ysgol / Blwyddyn 3-4). Seilir y canfyddiadau hyn ar 249 partner cyflenwi a 574 teulu.

I weld beth ganfuwyd gennym llynedd, darllenwch ein hadroddiad cryno 2022-23.

**Dechrau Da Plentyn Bach (Lloegr a Gogledd Iwerddon) a Dechrau Da Blynyddoedd 1-2 (Cymru)**




**Dechrau Da Cyn Ysgol (Lloegr a Gogledd Iwerddon) a Dechrau Da Blynyddoedd 3-4 (Cymru)**




**Adnoddau Storïwr (i bartneriaid)**




Gall cynnwys y pecynnau Storïwr amrywio

# Adborth gan deuluoedd a phartneriaid

BookTrust
Getting children reading

Dywed 96% o bartneriaid fod ein cynigion Blynyddoedd Cynnar yn ffordd effeithiol o gael teuluoedd â phlant ifanc i gyd-ddarllen

Dywed 74% o rieni / gofalwyr fod y rhaglen wedi peri iddyn nhw deimlo'n fwy hyderus wrth ddarllen a rhannu llyfrau a straeon gyda'u plant

"Mae'r llyfrau'n help eithriadol ac fe'u gwerthfawrogir yn fawr gan deuluoedd. Yn ychwanegol at gyflwyno dysgu, maen nhw'n helpu teuluoedd sydd dan anfantais gymdeithasol i gael ffordd arall o ymgysylltu â'u plant drwy ddarllen, a hefyd wrth adeiladu perthynas – drwy ymwneud ar y cyd a bod yn chwareus o gwmpas y llyfrau a'r adnoddau a ddarparwyd."

**Partner cyflenwi Blynyddoedd Cynnar, Belffast**

Cred 97% o bartneriaid fod ein hadnoddau yn y cynigion Blynyddoedd Cynnar yn eu cefnogi i ymgysylltu â rhieni a gofalwyr

Dywed 81% o deuluoedd fod y rhaglen wedi'u symbylu i ddarllen neu rannu llyfrau a straeon yn fwy gyda'u plant

Dywed 78% o rieni / gofalwyr eu bod wedi dysgu rhywbeth newydd am y ffyrdd gwahanol y gallan nhw ddarllen / rhannu llyfrau a straeon gyda'u plant – fel sut i wneud darllen yn weithgaredd mwy rhyngweithiol, hwyliog, ac nad oes yn rhaid darllen llyfr o glawr i glawr

"Fel mam am y tro cyntaf, ro'n i'n meddwl y byddwn i'n hurt yn darllen llyfr i fy mabi, ond pan gefais y pecyn hwn, meddyliais y rhown gynnig arni. Roedd hi wrth ei bodd gydag e, yn cŵan a gwenu gydol yr amser."

**Teulu incwm isel gafodd Dechrau Da Plentyn Bach (1-2 Oed), Bro Morgannwg**

"Rydyn ni wedi dechrau cael amser stori adeg mynd i'r gwely gan ddefnyddio'r llyfrau gawson ni yn ein pecyn. Mae wedi codi chwant ynof i greu cornel lyfrau glyd y gall fy mhlentyn ei ddefnyddio drwy'r amser."

**Teulu incwm isel wnaeth dderbyn Dechrau Da Plentyn Bach (1-2 Oed), Brighton a Hove**

Dywed 86% o deuluoedd fod y rhaglen wedi creu mwy o gyfleoedd iddyn nhw dreulio amser o ansawdd uchel gyda'u plant

Dywed 58% o deuluoedd fod eu plant wedi siarad neu ymgysylltu mwy wrth i rywun ddarllen iddyn nhw ers dechrau defnyddio'r llyfrau a'r gweithgareddau yn y pecyn

Dywed 67% o deuluoedd eu bod wedi ceisio gosod trefn ddarllen gartref gyda'u plentyn ers derbyn y pecyn

Dywed 68% o deuluoedd fod eu plant wedi dysgu geiriau newydd ar ôl defnyddio'r llyfrau a'r gweithgareddau yn y pecyn

Dywed 63% o deuluoedd fod eu plant wedi talu mwy o sylw wrth i rywun ddarllen iddyn nhw ers iddyn nhw ddechrau defnyddio'r llyfrau a'r gweithgareddau yn y pecyn

"Mae'r llyfrau a'r gweithgareddau o ansawdd mor dda, ac yn anhygoel. Mae fy merch dair blwydd oed yn awtistig, ac roedd hi'n dwlu ar y llyfr gyda'r llwybrau i'r bys, ac fe gyffrôdd hi'n lân pan oedd ei thad yn darllen llyfr One Banana, Two Bananas iddi hi."

**Teulu incwm isel wnaeth dderbyn Dechrau Da Cyn Ysgol (3-4 Oed), Swydd Durham**

## Am BookTrust

Fel elusen ddarllen plant fwyaf y DU, rydyn ni eisiau i bob plentyn ddarllen yn rheolaidd ac o ddewis. Rydyn ni'n cyrraedd at filiynau o blant a theuluoedd bob blwyddyn, yn enwedig y rheini o deuluoedd incwm isel neu o gefndiroedd bregus, gan eu hysbrydoli â llyfrau ac adnoddau, er mwyn eu cychwyn ar eu taith ddarllen.

Mae cyd-ddarllen cynnar yn cefnogi llafaredd, iaith, a datblygiad cymdeithasol ac emosiynol. Bydd plant sy'n dewis darllen, ac sy'n darllen yn rheolaidd, yn hapusach ac iachach. Maen nhw'n ffurfio cwlwm a pherthynas gryfach ag eraill. Gwnânt yn well yn yr ysgol, ac maen nhw'n fwy creadigol. Maen nhw'n llwyddo'n well mewn bywyd.

Dyma pam rydyn ni'n gweithio gyda theuluoedd, gan eu cefnogi i ddechrau rhannu straeon a llyfrau gyda'i gilydd o'r oedran cynharaf posib.

Darperir ein llyfrau, a ddetholir yn ofalus, a'n rhaglenni ar sail tystiolaeth, gan filoedd o bartneriaid lleol, gan ddod â hudoliaeth darllen i blant ymhob cymuned yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.



### Cynigion Blynyddoedd Cynnar BookTrust

Yn 2023/24 fe ddarparon ni ein rhaglen Dechrau Da Plant Lleiaf (1-2 Oed) a Cyn Ysgol (3-4 Oed) i 413,000 o blant ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, drwy ein rhwydwaith o 6,000 o bartneriaid cyflenwi.

### Darllenwch fwy am ymchwil ac effaith yn BookTrust

- Ein hadroddiad argraff diweddaraf
- Canfyddiadau cryno cynigion Blwyddyn Gyntaf Blynyddoedd Cynnar BookTrust
- Manteision Darllen

Darllenwch y diweddaraf o'n Briffiadau Ymchwil Blynyddoedd Cynnar BookTrust

- Arferion darllen plant yn y blynyddoedd cynnar
- Pwysigrwydd dylanwadwyr darllen lluosog
- Cefnogi cylch aml-genhedlaeth o ddarllenwyr
- Pam fod darllen ar y cyd yn gynnar yn cyfri, a rôl Dechrau Da Babi

Supported using public funding by ARTS COUNCIL ENGLAND

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

BookTrust
Getting children reading

MRS Awards 2023 Winner Activation of Insight

### Cysylltu â ni

queries@booktrust.org.uk
booktrust.org.uk
Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol
@BookTrust

©2024 BookTrust. Rhif Elusen: 313343